

2019



# EIP WALES

## EIP Wales

*Cydweithio er ffyniant gwledig*

Cydweithio er ffyniant gwledig  
Collaborating for rural success



Cyflwyno defaid cynffondeu i Gymru



Profi gwerth grawn hynafol



Sesiwn Holi ac Ateb:  
Gareth Thomas,  
Tregynrig

## TRO'R DEFAID YN Y PARLWR!



**Mae un o'r grwpiau diweddaraf i elwa o gyllid EIP Wales yn cynnwys pedwar unigolyn uchelgeisiol sy'n credu bod llaeth dafad yn ddewis gwych ar gyfer ffermwyr sy'n dymuno edrych ar fentrau amgen.**

Mae grŵp Agrisgôp yng Ngogledd Cymru a ffurfiwyd yn 2017 wedi dod â'r ffermwyr a oedd yn

awyddus i ddysgu mwy am y sector gwahanol hwn ynghyd â Dr Carrie Rimes, y gwneuthurwr caws o Fethesda, a fu'n dysgu ei chrefft yn Ffrainc cyn dychwelyd adref i sefydlu ei chwmni caws dafad llwyddiannus, Cosyn Cymru.

**PARHAU AR DUDALEN 3**



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**menter  
a busnes**

# Ffeithiau EIP Wales

## Beth yw EIP Wales?

Nod **EIP Wales** yw cyflwyno arloesedd a syniadau newydd ar gyfer busnesau fferm a choedwigaeth. Mae'n darparu cyllid o hyd at £40,000 ar gyfer grwpiau o ffermwyr a choedwigwyr sy'n dymuno treialu technegau a thechnolegau arloesol ar lefel ymarfeol o fewn eu busnesau.

## Beth yw hyd y prosiectau, a sut ellir gwario'r arian?

Mae angen cwblhau prosiectau erbyn 2022. Gellir defnyddio'r cyllid er mwyn llogi offer, talu costau contractwyr, talu arbenigwyr i fonitro cynnydd a rhoi cyngor a thalu i ddadansoddi samplau.

## Dechrau arni

Bydd grwpiau'n cael mynediad at Frocer Arloesedd sydd wedi'i ariannu'n llawn. Mae'r Brocer yn ymgynghorydd a fydd yn arwain y grŵp drwy'r broses ymgeisio ac yna'n hwyluso'r prosiect unwaith y bydd yn weithredol.

## Cysylltwch â ni

E-bost: [eipwales@menterabusnes.co.uk](mailto:eipwales@menterabusnes.co.uk)

Gwefan: [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)



## Cynhwysyn delfrydol

Yn ôl Dr Rimes, y newyddion da i ffermwyr defaid yw bod y galw ar hyn o bryd yn fwy na'r hyn sy'n cael ei gyflenwi – nid yng Nghymru'n unig, ond ledled y DU yn ogystal.

Mae llaeth dafad, sy'n adnabyddus am ei lefelau uchel o fraster a phrotein naturiol, yn gynhwysyn delfrydol ar gyfer caws, iogwrt a hufen iâ. Gyda'r anogaeth a'r arweiniad a dderbyniwyd drwy Agrisgôp, datblygodd Alan Jones, un o aelodau'r grŵp, sy'n ffermio yn Nerwen

Gam, Chwilog, yr hyder i arallgyfeirio. Dechreuodd Alan odro 30 o'i ddefaid Lley'n a Friesland, a fyddai wedi bod yn cynhyrchu cig oen yn y gorffennol.

Erbyn heddiw, mae Alan yn godro diadell o 80 mamog, gyda chymorth ei fab, Osian. Mae'r fenter wedi tyfu'n sydyn, a gyda rhestr aros o gwsmeriaid, mae'r teulu'n bwriadu cynyddu'r ddiadell i 450 o famogiaid.

## Mae'r galw'n uwch na'r hyn sydd ar gael

Er gwaetha'r cynnydd mewn galw am laeth dafad, mae ffermwyr yn

gyndyn o fuddsoddi amser ac adnoddau yn y farchnad newydd hon, yn rhannol oherwydd diffyg gwaith ymchwil a gwybodaeth, sy'n brin iawn o'i gymharu â'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r sector llaeth buwch. Mae EIP Wales bellach yn helpu i fynd i'r afael â'r mater.

Dywed rheolwr EIP Wales, Lynfa Davies, sy'n gweithio i Menter a Busnes, fod y prosiect yn anelu at fynd i'r afael â'r prinder dealltwriaeth o'r hyn sy'n dda o ran cynhyrchu llaeth dafad.

"Mae gwaith ymchwil wedi amlygu bod lefel y bacteria yn y llaeth yn factor allweddol o ran ansawdd, ac mae'r grŵp wedi dewis ymchwilio i sut mae brid y ddafad, cyfnod llaetha, ac ychwanegion seleniwm yn y diet yn gallu dylanwadu ar hyn."

Mae Dr Rimes yn gwneud caws heb ei basteureiddio a dywed fod ansawdd y llaeth yn hollbwysig.

"Mae mamogiaid Alan yn cael eu magu ar y borfa mewn modd organig, sydd eisoes yn fonws.

"Dylai canlyniadau'r prosiect hwn helpu i gadw ansawdd microbaidd y llaeth ar y safon uchel sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud caws."



Geraint Hughes (Brocer Arloesedd ar gyfer y grŵp), Alan Jones a Dr Carrie Rimes



# Cyflwyno defaid cynffondew i Gymru

Yn ystod Gwanwyn 2020, bydd dau ffermwr, Peter Williams a Bedwyr Jones o Ogledd Cymru yn gobeithio torri tir newydd drwy fod y cyntaf i gyflwyno wŷyn Damara i'r DU.

“Gyda newidiadau sylweddol ar y gweill, o fewn y sector defaid yn benodol, mae'n braf gweld dau unigolyn yn defnyddio eu cryfderau fel bugeiliaid profiadol i ymchwilio i'r farchnad arbenigol premiwm yma ym marchnadoedd cig oen a chig dafad y DU yn Ewrop,” meddai Geraint Hughes, Brocer Arloesedd ar gyfer y prosiect.

## YR HER

**D**aeth Peter ar draws defaid cynffondew pan fu'n gweithio ar fferm yn y Dwyrain Canol yn y 1980au ac mae'n benderfynol y bydd Cymru'n arwain o ran datblygu diadell lwyddiannus yma yn y DU.

**C**am cyntaf y prosiect fydd i fewnforio embryonau a semen Damara o Awstralia. Bydd y grŵp wedyn yn ymchwilio agweddau ymarferol magu defaid Damara pur a'u croesi gyda bridiau Romney, Texel croes a Lley'n croes. Bydd y mamogiaid a'r wŷyn yn cael eu monitro'n ofalus i weld pa mor dda maen nhw'n addasu

i'r amodau mwynach a gwlypach sy'n nodweddiadol yng Nghymru.

**D**ywed Geraint Hughes: “Mae'r prosiect hwn eisoes wedi ennyn diddordeb lladd-dy yn Swydd Amwythig a nifer o gigyddion yn Llundain, Birmingham a Manceinion sydd â nifer o gwsmeriaid mewn cymunedau ethnig.”

**B**ydd y prosiect hwn yn asesu a Ballai'r brid Damara gynnig opsiwn arallgyfeirio i ffermwyr sy'n defnyddio sgiliau rheoli'r ddiadell sydd eisoes ganddynt gan ymchwilio i farchnadoedd posibl ar yr un pryd.

## Ffeithiau am y brid Damara

**Math:** Brid o ddefaid cynffondew. Mae oddeutu 50 gwahanol frid ar gael.

**Hanes:** Yn wreiddiol o Ddwyrain Asia, yr Aifft a Namibia, gellir olrhain y Damara yn ôl hyd at 3000 BC.

**Nodweddion:** Anifail mawr gyda chorff a choesau hir. Maen nhw'n tyfu gwlan garw a byr sy'n gallu amrywio yn ôl lliw. Mae mwyafrif y braster yn cael ei storio yn eu cynffonnau, gan eu gwneud yn nodweddiadol yr olwg.

**Cryfderau:** Cryf a gwydn. Maen nhw'n adnabyddus am eu gallu i ffynnu mewn amgylcheddau llym o ganlyniad i'w gallu i fagu pwysau er gwaethaf diet naturiol sy'n brin o faetholion.

**Defnydd:** Maen nhw'n cael eu bridio am y cig a'r braster sy'n cael eu defnyddio'n eang mewn bwydydd Arabaidd a Phersiaidd.

**Cig:** Yn llai bras ac yn fwy brau a suddlon na chig defaid â chynffonau tenau. Hefyd, mae'r cig yn cynnwys mwy o asid brasterog Omega-3 nag Omega-6 a llai o fraster dirlawn.



Mamog ac oen 'cynffondew' Damara

Enw: David Edge Enw'r Fferm: Cop House Farm

Lleoliad: Saltney Ferry, Caer

Fferm: Organig. Yn berchen ar 97 Ha ac yn rhentu 200 Ha.

Herd: Godro 300 o warthog ProCROSS, sy'n frid hybrid o wartheg Holstein, Swedish Red a Montbéliarde.

Cynnyrch: Cyfartaledd o 7500 litr. Mwyafrif y llaeth yn cael ei werthu fel rhan o Gwmni Cydweithredol Calon Wen fel llaeth crai, iogwrt a chaws.

Prosiect EIP Wales: Porfa i Beillwyr



## Beth oedd eich cymhelliant wrth ymuno â phrosiect EIP Wales, Porfa i Beillwyr?

Fel ffermwyr Calon Wen, mae'n buchod ni eisoes yn pori ar borfeydd organig, ac fe ddechreuon ni feddwl beth fyddem ni'n gallu ei wneud i sicrhau bod ein tir pori'n well i bryfed peillio fel gwenyn. Cododd y syniad o gynnwys gwyndonnydd sy'n addas i lawer o rywogaethau yn ein porfeydd, gyda'r potensial i gynyddu'r porthiant a chynyddu poblogaethau pryfed peillio yn ogystal. Fel cwmni cydweithredol, rydyn ni eisoes yn cydweithio ac mae hynny'n un peth a'n denodd ni at EIP Wales, sy'n hybu gwaith grŵp ar draws y sector.

## Beth rydych chi'n ei wneud yn y prosiect?

Adeg y toriad silwair cyntaf, rydyn ni'n gadael un dalar heb ei thorri. Wedyn gallwn ni gymharu niferoedd y pryfed peillio a'r cnwd porthiant ar y manau sydd wedi'u torri a'r manau sydd heb eu torri. Adeg y toriad silwair nesaf, mae'r llecyn a gafodd ei adael o'r blaen yn cael ei dorri, ac mae talar arall yn cael ei gadael heb ei thorri. Mae hyn yn sicrhau bod yna gyflenwad parhaus o flodau i'r gwenyn. Drwy dorri darnau o'r dalar am yn ail, gallwn gadw'r cae cyfan mewn cyflwr amaethyddol da. Rydyn ni hefyd yn monitro ansawdd y silwair ac yn ymchwilio i weld a ydy cynnwys y manau sydd wedi'u gadael i aeddfedu ac sy'n cynnwys mwy o ffibr yn gallu lleihau'r angen i ychwanegu gwellt fel ffynhonnell ffibr yn y dogn sy'n cael ei fwydo i'r anifeiliaid.

## Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth newydd drwy fod yn rhan o'r prosiect?

Ers dechrau'r prosiect, dwi wedi sylweddoli gwerth cael gwyndonnydd mwy amrywiol o safbwynt ffermio a chadwraeth, a dwi wedi ail-hadu caeau eraill â'r cymysgedd gwndwn llysieuol Cotswold Seeds a ddefnyddion ni yn y prosiect. Mae mwy na digon o gyfiawnhad dros yr £50 yr hectar ychwanegol (£20 yr erw yn ychwanegol) am y cymysgedd hadau o ran y ffeibr ychwanegol a'r fitaminau hanfodol i'r buchod yn ogystal â gwella'n gallu i wrthsefyll sychder, a phwy all anghofio'r ffaith fod y gwenyn yn dwli ar y stwff! Cyn i'r prosiect ddechrau, doeddwn i'n gwybod fawr ddim am gacwn ac mae wedi bod yn ddifyr iawn dysgu amdany'n nhw a dwi'n gobeithio gweld mwy byth o ran amrywiaeth a niferoedd eleni... a hyd yn oed nabod ambell un os galla i!

## Beth yn eich barn chi yw prif neges y prosiect yma?

Rydyn ni wedi rhedeg y prosiect yma fel ffermwyr a gobeithio y bydd yn dangos i bobl eraill fod cadw cacwn yn gallu bod yn ymarferol ac yn fuddiol i'r fferm. Yn amlach na pheidio rwy'n credu bod cadw bywyd gwyllt yn gallu mynd law yn llaw ag amaethu cynhyrchiol ac nad oes rhaiddo gymryd drosodd yn lle'r gwaith ffermio ei hun.





## Cyanaefu silwair mewn modd sy'n garedig i wenyn

### Cyanaefu silwair:

Bydd gadael sribyn 2-4 metr o borthiant heb ei dorri ar hyd ochrau caeau yn darparu blodau lle gall wenyn a pheillwyr eraill chwilota am fwyd.

### Gyda phob toriad:

Gallwch gynaeafu'r sribyn heb ei dorri'n flaenorol, ond gadewch sribyn arall heb ei dorri ar ochr arall y cae.




Mae gadael ardaloedd sy'n cynnwys blodau aeddfed heb eu torri yn darparu neithdar a phail gwerthfawr ar gyfer ystod eang o bryfed gan gynnwys gwenyn. Bydd pryfed buddiol yn bwyta plâu megis llyslau, peillio cnydau megis meillion neu'r afalau yn y berllan a darparu ffynhonnell fwyd ar gyfer adar a mamaliaid bychain.

## Manteision gwyndonnydd amlrywogaeth

Gall tannin mewn perlysiau helpu i reoli llyngyr parasitig mewn modd naturiol a fydd yn lleihau dibyniaeth y ffermwr ar driniaethau anthelminitig.

Mae planhigion gyda gwreiddiau dwfn yn amsugno mwy o faetholion gan ddarparu fitaminau a mwynau pwysig ar gyfer yr anifeiliaid.



Gall perlysiau gyda gwreiddiau dwfn helpu i leihau cywasgiad pridd, cynyddu lefelau ocsigen yn y pridd a gwella draeniad

Mae planhigion codlysiâu yn sefydlogi nitrogen gwerthfawr yn y pridd sy'n gallu lleihau'r angen ar gyfer gwrteithiau

PROFI  
gwerth grawn  
HYNAFOL



# Q&A

Sesiwn holi ac ateb gyda'r Fforwm Grawn Cymru (WGF) am brosiect Cadwyn Gyflenwi Grawn Hynafol Organig EIP Wales

**1** AR UN ADEG, ROEDD GRAWN YN CAEL EI DYFU'N HELAETH YNG NGHYMRU AR RADDFA FACH, AT GRASU BARA. YDYCH CHI'N CREDU BOD YNA LE YN Y FARCHNAD BRESENNOL I RAWN O GYMRU, NEU HEN FATHAU O RAWN, AT GRASU BARA?

Nid oes unrhyw amheuaeth bod lle yn y farchnad ar gyfer grawn o Gymru, grawn hynafol ac amrywiaethau cynhenid. Mae tarddiad yn dod yn fwyfwy pwysig i gwsmeriaid, felly nid oes amheuaeth bod galw am rawn o Gymru. Mae marchnadoedd bychain arbenigol cynyddol ar gyfer grawn hynafol (e.e. Einkorn

a Spelt) ac amrywiaethau brodorol a chynhenid (e.e. amrywiaeth barfog Ebrill a Hen Gymro), ar gyfer pobwyr crefft a bwytaid moethus.

**2** PAM MAE YNA ALW CYNYYDDOL AM YR HEN FATHAU HYN O RAWN?

Er bod nifer o honiadau ynglŷn â buddion maethol grawn hynafol, nid oes tystiolaeth i gefnogi llawer o'r honiadau hyn. Yr hyn sy'n bendant yn wir yw eu bod yn dueddol o fod ag ymwrthedd i glefydau, felly nid oes angen ffwngladdwyr yn aml.

Mae eu systemau gwreiddiau helaeth o'u cymharu ag amrywiaethau modern, yn eu caniatáu i gael mynediad at fwy o faetholion mewn modd mwy effeithlon, ac yn ffurfio'n ddyfnach o fewn proffil y pridd. Mae hyn yn ein galluogi i'w tyfu ar briddoedd llai ffrwythlon gyda llai o fewnbynnau, cynyddu lefelau maetholion penodol o bosibl yn y grawn a chystadlu yn erbyn chwyn. Mae blas bara o rawn hynafol yn cael ei ystyried i fod yn well na nifer o amrywiaethau modern.

**3** ALLAI TYFU GRAWN YN UNSWYDD AT GREU BLAWD FOD YN OPSIWN I FFERMWYR ERAILL LEDLED CYMRU, O SAFBWyNT ARALLGYFEIRIO?

Gallai, ond fel pob marchnad newydd, mae angen rheoli'r gadwyn gyflenwi'n ofalus. Mae'r farchnad yn tyfu, ond mae'n dal i fod yn fach iawn ar y cyfan, ac felly, byddai niferoedd uchel o dyfwyr yn dod i mewn i'r farchnad ar yr un pryd, byddai'r farchnad yn llenwi'n sydyn iawn. Mae'r capasiti melin garreg yn brin yng Nghymru ac mae angen i'r capasiti yma gynyddu ynghyd â chynhyrchiant grawn a'r farchnad. Hefyd, mae cyflenwad hadau'n brin ar gyfer nifer o amrywiaethau ar hyn o bryd, a byddai angen datblygu hynny. Felly, mae cyfleoedd ar gael, ond mae angen llawer o waith i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi.

**4** OES YNA HERIAU I FFERMWYR A HOFFAI DDECHRAU TYFU A GWERTHU GRAWN SY'N ADDAS AT GREU BLAWD?

Ar hyn o bryd (am resymau sydd wedi'u hesbonio eisoes), mae gweithgareddau ar raddfa fechan yn fwy addas, ac mae hynny'n cynnig ei heriau ei hun, yn enwedig o ran prosesu cynradd. Er enghraifft, mae nifer o beiriannau sychu a glanhau angen cyfaint mawr er mwyn gweithio'n effeithlon, a gall hyn fod yn anodd pan fyddwch yn ymdrin â chyfeintiau rhwng 5-10 tunnell. Mae ambell i wahaniaeth rhwng tyfu amrywiaethau hynafol vs modern ac amrywiaethau malu vs porthiant, ac mae'r prosiect EIP Wales yn edrych ar rai o'r materion hyn – yn enwedig cyfraddau hau a than-hau.

**5** UN O NODAU'R WGF YW 'ADFYWIO GRAWN YNG NGHYMRU'. YDY CYMRYD RHAN YN Y PROSIECT YMA DAN ADEN EIP CYMRU YN EICH HELPU I GYRRAEDD Y NOD, AC OS YDY, SUT?

Yn bendant. Trwy fynd i'r afael â chwestiynau agronomeg allweddol, bydd y prosiect yn gwella effeithlonrwydd chynhyrchiant, a bydd y prawf pobi, blas a maeth yn ein cynorthwyo i brofi'r honiadau ynglŷn â chynnyrch yn seiliedig ar rawn hynafol.

# Lleihau'r defnydd o driniaethau gwrthfotig ar ffermydd defaid yn ystod y cyfnod wyna



## Sesiwn Holi ac Ateb gyda'r Ffermwr:

Mae Gareth Thomas, Tregynrig yn un o wyth ffermwr o Ynys Môn sy'n cymryd rhan yn y prosiect hwn.

### Dywedwch wrthym amdanoch eich hun a'ch fferm

Gareth Thomas ydw i. Rydw i'n 23 mlwydd oed ac yn ffermio biff a defaid ar ein fferm deuluol ar Ynys Môn. Rydw i'n aelod o Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Cymru a bwm yn ffodus iawn i gael fy newis yn aelod o Raglen Busnes ac Arloesedd Academi Amaeth Cyswllt Ffermio yn 2017, yn ogystal â chael fy newis i fod yn rhan o Grŵp Polisi'r Genhedlaeth Nesaf ar gyfer NFU Cymru.

### Beth wnaeth eich cymell chi i ymuno â'r prosiect EIP Wales yn ymwneud â lleihau'r defnydd o driniaethau gwrthfotig?

Rydw i'n credu'n gryf yn amcanion y prosiect hwn. Mae'n bwnc amserol iawn yn fy marn i, gan fod ein gorddibyniaeth ar wrthfotigau yn y gorffennol, o fewn y sector amaeth a'r sector iechyd, wedi creu sefyllfa lle os na fyddwn yn lleihau ein dibyniaeth, ni fydd y triniaethau'n gweithio ar gyfer pobl nac anifeiliaid.

### Beth yw eich profiad o fod yn rhan o'r prosiect a gweithio gyda grŵp o ffermwyr?

Mae fy mhrofiad o weithio gyda'r grŵp yma wedi bod yn wych. Mae pawb wedi bod yn agored, ac yn barod i roi eu barn a rhannu syniadau diddorol.

### Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth newydd drwy fod yn rhan o'r prosiect hwn?

Un o'r pethau pwysicaf yr wyf wedi ei ddysgu yw bod iechyd y traed yn hanfodol er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl o fewn y ddiadell. Drwy fynd i'r afael â hyn, mae problemau eraill megis clwy'r cymalau yn lleihau. Mae hyn wedi fy annog i greu cynllun dwy flynedd a phum mlynedd i wella iechyd traed ein defaid, ac i sicrhau system sy'n gweithio i ni gartref ar y fferm.

Eleni, byddaf yn dechrau fel aelod o fwrdd 'Grŵp Cyflenwi Cymru ar gyfer Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn

Anifeiliaid a'r Amgylchedd', lle byddaf yn trafod creu cynllun gweithredu i leihau'r defnydd o wrthfotigau a gwella eu heffeithlonrwydd. Fel rhan o'r swydd hon, byddaf yn gallu annog mwy o ffermwyr i wneud defnydd o'r hyn a ddysgwyd fel rhan o'r prosiect hwn.


### Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'ch arferion ffermio o ganlyniad i'r prosiect hwn?

Fel rhan o'r prosiect, rydym ni wedi lleihau ein defnydd o wrthfotigau yn ystod y cyfnod wyna. Eleni, rhoddwyd pwyslais ar leihau lefelau bacteria yn y sied ddefaid ac yn y corlannau cyn wyna. Yn ogystal, rydym ni wedi canolbwyntio ar wella ein defnydd o driniaethau llyngyr yr iau a llyngyr. Rydym ni'n defnyddio Cyfrif Wya Ysgarthol yn rheolaidd i weld a oes angen triniaeth, yn ogystal â darganfod pa driniaeth fyddai fwyaf effeithiol, yn hytrach na rhoi drensh yn erbyn popeth.

### Beth yw'r prif negeseuon o'r prosiect hwn yr hoffech eu rhannu gyda ffermwyr eraill?

- Mae sicrhau bod pob mamog yn derbyn 40 i 50cm o le o amgylch y man porthi yn ffordd effeithiol o sicrhau eu bod yn cael digon o borthiant.
- Mae cyfrif wya ysgarthol yn ddefnyddiol iawn er mwyn canfod y driniaeth orau a mwyaf effeithiol. Mae'n gwella perfformiad, ac yn y pen draw, bydd yn arbed arian i chi.
- 'Osgoi, Trin, Cwarantîn, Brechu, Difa.' Mae'r cynllun 5 pwynt i leihau cloffni mewn defaid yn hanfodol er mwyn datblygu a gwella perfformiad y ddiadell gyfan.
- Gwelwyd fod ychwanegu calch wedi bod yn ddull effeithiol o gynnal hylendid yn y sied wyna.
- Defnyddio menig archwilio i dynnu wyna yw'r ffordd rataf a mwyaf effeithiol o leihau lledaeniad clefydau a bacteria.





eip-agri  
AGRICULTURE & INNOVATION



## Newyddion EIP diddorol o dramor

### Systemau chwistrellu fel amddiffyniad rhag llwydrew neu farrug


Mae perllannau a ffrwythau a llysiau eraill yn dod yn fwyfwy agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae twf cynharach yn y gwanwyn a hydref hirach a mwynach yn golygu bod y tymor tyfu'n hirach, ond gallai blodau rhy gynnar gael eu niweidio gan llwydrew neu farrug yn y gwanwyn.

Yn ardal Grójec yng Ngwlad Pwyl, penderfynodd ffermwr o'r enw Piotr Domasiewicz dreialu system chwistrellu dŵr i amddiffyn ei ffrwythau rhag llwydrew yn y gwanwyn. Mae ganddo un o'r perllannau afalau mwyaf yn yr ardal, sef 16 Ha. Mae'n dweud: "Yn y gorffennol dwi wedi rhoi cynnig ar systemau eraill, fel niwl artiffisial a pheiriannu gwynt, ond doedden nhw ddim yn addas i'n math ni o gnwd nac i siâp y parseli tir. Roedd rhwydi'n pylu lliw'r afalau, ac roedd canhwyllau gwres yn ddrud heb fod yn effeithiol iawn."

"Mae'r chwistrellwyr sydd gen i yn y prosiect hwn yn gallu troi 360°, a chwistrellu dros radiws o hyd at 13 m. I ddechrau, fe brofes i'r system ar ardal yn mesur 2 Ha. Drwy lwc, roedd elw'r tymor cyntaf yn ddigon da imi ail-fuddsoddi mewn rhagor o chwistrellwyr. Erbyn hyn, mae yna chwistrellwyr ar 10 Ha o'r fferm - y rhan sy'n fwyaf tueddol o ddiodesdef niwed yn sgil llwydrew. Mae'r rhan arall ar lethr sy'n uwch ac felly does dim angen amddiffyn honno, gan fod aer oer yn tueddu i lifo tuag i lawr."

I atal niwed llwydrew yn effeithiol, rhaid i'r chwistrell ddechrau gweithio ar yr union adeg gywir. Meddai Piotr: "Cyn gynted ag y bo'r tymheredd yn gostwng i 0°C, dwi'n dechrau'r chwistrellwyr. I amddiffyn y ffrwythau rhag llwydrew pan fo'r tymheredd rhwng -3°C a -5°C, dwi'n defnyddio 40 m<sup>3</sup> o ddŵr yr awr i bob hectar. Rhaid ichi barhau i chwistrellu nes bod y rhew ar y planhigion wedi'i ddadmer i gyd. I atal tymheredd meinwe'r planhigion rhag gostwng yn rhy isel rhwng pob ton o ddŵr, dylai'r dŵr gael ei chwistrellu'n ddi-baid. Mae'r chwistrellwyr yn effeithiol iawn i amddiffyn rhag llwydrew rhwng 0°C a -4°C, ond dwi wedi defnyddio'r un dull ar gyfer tymheredd o -8°C."

Mae Piotr yn gweld y system yn un effeithiol iawn ac mae wedi bod yn fuddiol iawn o safbwynt economaidd: "Mae chwistrellwyr yn ateb mwy nag un diben a gallwch eu defnyddio nhw hefyd i ddyfrhau neu i daenu gwrtaith. Byddwn i'n bendant yn argymhell y dull yma i ffermwyr ffrwythau eraill, er bod y costau gosod yn ddrud i ddechrau. Os yw'ch fferm chi mewn ardal sy'n tueddu i ddiodesdef â llwydrew yn y gwanwyn, mae'n werth ei ystyried."



Mae llwydrew'r gwanwyn yn arbennig o beryglus pan fo'r coed yn eu blodau